Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

29 Hydref 2013

**John Griffiths AC**
Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

Annwyl Weinidog

**Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, 2014-15**

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 24 Hydref 2013 i ateb cwestiynau am gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â diwylliant a chwaraeon ar gyfer 2014-15.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a nodir isod, ac mae'n edrych ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted ag y bo modd, pan fo hynny'n briodol.

Rydym yn nodi bod ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid o'r gyllideb ddrafft wedi'i strwythuro ar sail pedwar amcan craffu ariannol sef: fforddiadwyedd; blaenoriaethu; gwerth am arian; a phrosesau'r gyllideb. Rydym wedi ystyried yr amcanion hyn yn ein hystyriaethau ni, gan nodi'r amcan perthnasol yn erbyn pob un o'r materion a nodir isod. Anfonir copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Cyllid i gyfrannu at ei ystyriaeth gyffredinol o'r gyllideb ddrafft, ac fe'i cyhoeddir ar ein gwefan hefyd.

## 1. Blaenoriaethau Cyffredinol

Gwnaethoch sicrhau'r Pwyllgor bod modd cyflawni holl ymrwymiadau'r *Rhaglen Lywodraethu* o fewn y cyllidebau sydd ar gael. Fodd bynnag, nodwn fod gostyngiad o 3.7% mewn termau real ar gyfer 2014-15 o ran y cyllid refeniw a chyfalaf cyfunol ar gyfer y portffolio cyfan (o gymharu â 2013-14). Gwnaethoch ddweud wrthym fod trafodaethau manwl wedi cael eu cynnal gyda'r sefydliadau a

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8147
Ebost / Email : CELG.Committee@wales.gov.uk

ariennir gan eich portffolio, er mwyn asesu effaith gostyngiadau yn y gyllideb arnynt, a'ch bod wedi symud rhywfaint o'r gyllideb er mwyn ymateb i effeithiau posibl a nodwyd trwy gynnal y broses hon. **Gofynnwn ichi fonitro'n ofalus sut y mae'r gostyngiadau yn effeithio ar y canlyniadau ym mhob maes o fewn y rhaglen wariant dros y flwyddyn nesaf, gan adrodd yn ôl inni am hyn.**

Gwnaethoch ddweud bod y broses o gyflawni'r ymrwymiadau yn eich portffolio a'u canlyniadau cysylltiedig yn cael eu monitro drwy gydol y flwyddyn, mewn cyfarfodydd gyda Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr y cyrff a noddir, ac yn ystod trafodaethau yn y cyfarfodydd Monitro Chwarterol ar lefel swyddogol, gyda'r cyflawniadau'n cael eu nodi yn Adroddiad Blynyddol y *Rhaglen Lywodraethu.* Yn ogystal, gwnaethoch ddweud bod gwerthusiadau yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a ddymunir yn cael eu cyflawni a bod buddsoddiadau yn cynnig gwerth am arian. **Credwn y dylech barhau i gynnal gwerthusiadau er mwyn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau a byddai gennym ddiddordeb mewn cael y wybodaeth ddiweddaraf gennych am hyn maes o law.**

**2. Sector y celfyddydau**

Mae'r *Rhaglen Lywodraethu* yn nodi mai un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw ehangu'r cyfleoedd i fanteisio ar ddiwylliant drwy weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru er mwyn datblygu sector y celfyddydau sy'n fywiog ac o safon uchel, ac y mae modd i'r holl gymunedau yng Nghymru fanteisio arno. Fodd bynnag, roedd adroddiad cynnydd 2013 am y *Rhaglen Lywodraethu* yn dangos y bu gostyngiad yng nghyfran y plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn rheolaidd, a bod y bwlch rhwng cyfranogiad grwpiau difreintiedig a grwpiau eraill yn parhau.

Nodwn eich tystiolaeth ynghylch y ffaith eich bod wedi egluro wrth sector y celfyddydau a Chyngor Celfyddydau Cymru yr angen i "gynhyrchu mwy gyda llai" a'ch bod wedi rhoi'r dasg i'r holl sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan eich portffolio i fod yn fwy effeithiol wrth gyflawni. Fodd bynnag, rydym yn nodi y bydd gostyngiad o 5.6% mewn termau real yn y cyllid cyfalaf a refeniw cyfunol ar gyfer y maes hwn o fewn y rhaglen wariant. Credwn y dylid adolygu a monitro effaith hyn ar ffigurau cyfranogi yn ofalus, yn enwedig ymhlith grwpiau difreintiedig. **Gofynnwn i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar ôl i adroddiad cynnydd 2014 am y *Rhaglen Lywodraethu* gael ei gyhoeddi.**

**3. Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd**
*(Amcan craffu: Blaenoriaethu, fforddiadwyedd)*

Mae adroddiad cynnydd 2013 ar y *Rhaglen Lywodraethu* yn nodi bod nifer yr ymweliadau â'r Amgueddfa Genedlaethol a'r Llyfrgell Genedlaethol wedi torri pob record flaenorol, ac mae nifer y bobl sy'n ymweld â llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru wedi codi dros 11% yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf o gymharu â gostyngiad o 5.1% ledled y DU.

Gwnaethoch ailddatgan eich bwriad i gadw'r trefniant o gynnig mynediad am ddim i safleoedd yr Amgueddfa Genedlaethol fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu mynediad, ac rydym yn croesawu hyn. Rydym yn nodi eich sylw bod y polisi hwn yn cyflawni o ran ehangu mynediad, ond credwn y dylid parhau i adolygu cynaliadwyedd y polisi, yn ogystal â'i werth am arian, o ystyried y gostyngiadau a wneir mewn rhannau eraill o gyllideb Llywodraeth Cymru.

Rydym yn nodi y bydd £1.9 miliwn ar gael o fewn y maes hwn yn y rhaglen wariant, y bydd modd i lyfrgelloedd ac amgueddfeydd lleol wneud cais amdano. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol o bryderon ehangach ynghylch effaith bosibl gostyngiadau yng nghyllideb llywodraeth leol ar wasanaethau megis llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau. Rydym yn croesawu eich sylw eich bod yn awyddus i sefydlu sianelau cyfathrebu gyda llywodraeth leol fel eich bod yn ymwybodol o'u bwriad yn hyn o beth, a'ch bod mewn sefyllfa i gynnig cymorth. **Credwn y dylid sefydlu'r sianelau cyfathrebu hyn ar unwaith er mwyn lleihau effaith y gostyngiadau yng nghyllideb llywodraeth leol ar wasanaethau llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau gymaint ag y bo modd. Edrychwn ymlaen at glywed am y camau yr ydych wedi eu cymryd yn hyn o beth, a bwriadwn ddychwelyd at y mater hwn pan fydd y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i lyfrgelloedd lleol yn y dyfodol agos.**

Rydym yn nodi ac yn croesawu eich ymrwymiad i ddiogelu'r cyllid sy'n cael ei neilltuo er mwyn cyflawni strategaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli 2012-2016* a Strategaeth *Amgueddfeydd Cymru 2010-2015.* **Fodd bynnag, byddem yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ynghylch y berthynas rhwng lefel y cyllid a ddarparir er mwyn gweithredu'r strategaethau hyn, a'r canlyniadau penodol a gyflawnwyd ganddynt hyd yn hyn.**

Yn ogystal, rydym yn croesawu eich sicrwydd na fu unrhyw effaith ar ddyraniadau o fewn rhannau eraill o'ch portffolio o ganlyniad i'r cam o ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith atgyweirio yn y Llyfrgell Genedlaethol, gan fod yr adnoddau wedi dod o gyllid canolog.

**4. Yr Amgylchedd Hanesyddol**
*(Amcanion craffu: Fforddiadwyedd a gwerth am arian)*

Rydym yn nodi y bu gostyngiad cyfyngedig o £60,000 yn swm y cyllid refeniw ar gyfer y maes hwn o fewn y rhaglen wariant yn 2014-15 o gymharu â'r swm a nodir yn y cynlluniau dangosol. Rydym yn nodi hefyd y gostyngiad o £160,000 mewn refeniw o gymharu â'r swm yn 2013-14 a gostyngiad pellach o £300,000 yn y cyllid cyfalaf.

Gwnaethom holi am gynnydd y gwaith sy'n cael ei wneud ynghylch dyfodol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'i uniad posibl â CADW. Gwnaethoch nodi nad oedd unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud eto ond, beth bynnag fo'r canlyniad, y byddech yn dymuno iddo gael ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol. **Hoffem ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynnydd yn y maes hwn.**

Rydym yn nodi eich sylwadau am yr hyn y mae'ch *Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol* yn ceisio'i gyflawni o ran cysylltu safleoedd, **ond byddem yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau penodol maes o law.**

Rydym yn nodi hefyd eich bod wedi cadarnhau y bydd cyllid digonol ar gael er mwyn cyflwyno a gweithredu Bil Treftadaeth maes o law, a bydd y Pwyllgor yn cadw hyn mewn cof pan fydd yn craffu ar y Bil hwnnw.

Gwnaethom eich holi hefyd am effaith bosibl gostyngiadau ehangach yn y gyllideb ar sefydliadau llai yn y sector hwn. Rydym yn cytuno gyda chi nad oes unrhyw atebion hawdd yn yr hinsawdd ariannol bresennol, **ond byddem yn gofyn ichi fonitro hyn yn ofalus, gan gofio'r cyfraniad sylweddol a wneir gan sefydliadau llai i'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.**

**5. Y Cyfryngau a Chyhoeddi**
*(Amcan craffu: Blaenoriaethu)*

Rydym yn nodi y bydd y cyllid ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru yn gostwng £200,000 yn ystod 2014-15 ac yn gostwng £100,000 yn ychwanegol yn 2015, ac rydym yn bryderus gan ei bod yn ymddangos na cheir asesiad eglur o effaith hyn, nac esboniad am y rheswm dros wneud y gostyngiadau hyn.

Gwnaethoch gadarnhau bod y Gronfa Radio Cymunedol wedi cael ei therfynu, gan ddweud y bu wastad yn eglur y byddai'r cyllid hwn ar gael am gyfnod yn unig. Gwnaeth eich swyddogion nodi bod y cyllid yn cyfateb â £100,000 y flwyddyn a bod y cyllid wedi cael ei rannu rhwng naw gorsaf yn ystod 2013-14. Er ein bod yn sylweddoli mai swm cymharol fach yw hwn mewn perthynas â chyfanswm eich cyllideb, gallai hyn gael effaith sylweddol ar allu gorsaf radio gymuned i oroesi. Felly, roeddem yn siomedig iawn nad oedd modd ichi ein hysbysu am yr effaith y byddai terfynu'r gronfa hon yn ei chael ar y gorsafoedd a fyddai'n cael eu heffeithio. Yr hyn a ddywedasoch yn unig oedd eich bod yn gobeithio y byddai rhai ohonynt, o leiaf, yn gynaliadwy.

Rydym yn nodi eich sylw hefyd nad oes gennych chi lawer o gyllideb ar gyfer darlledu yng Nghymru, a bod adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru yn ariannu meysydd sy'n ymwneud â'r cyfryngau hefyd, megis y diwydiannau creadigol. Fodd bynnag, o ystyried y ffaith bod gennych chi gyfrifoldeb dros bolisi ynghylch darlledu, **byddem yn croesawu manylion pellach am lefel y cyllid a ddarperir o fewn eich adran i hyrwyddo lluosogrwydd a'r cyfryngau yng Nghymru, a manylion am y gwaith penodol y mae'ch adran yn ei wneud yn hyn o beth.**

**6. Chwaraeon a gweithgarwch corfforol**
*(Amcanion craffu: blaenoriaethu)*

Rydym yn nodi y bydd swm y cyllid refeniw a chyfalaf cyfunol ar gyfer maes chwaraeon a gweithgarwch corfforol o fewn y rhaglen wario yn gostwng o £25.2 miliwn yn 2013-14 i £24.1 miliwn yn 2014-15, sy'n ostyngiad o 6.2% mewn termau real. O ystyried ymrwymiad allweddol Llywodraeth Cymru i ehangu

cyfranogiad mewn chwaraeon a lefelau gweithgarwch corfforol yng Nghymru, credwn y dylid parhau i adolygu effaith y gostyngiad hwn mewn cyllid ar lefelau cyfranogi. **Gofynnwn ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am hyn ar ôl i adroddiad cynnydd 2013 ar y *Rhaglen Lywodraethu* gael ei gyhoeddi. Yn ogystal, byddem yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf am y canlyniadau penodol sydd wedi deillio o'r dull gweithredu llywodraeth gyfan i godi lefelau gweithgarwch corfforol a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2012.**

Yn debyg i'n sylw uchod am effaith bosibl y gostyngiadau yng nghyllideb llywodraeth leol ar lyfrgelloedd ac amgueddfeydd lleol, unwaith eto, nodwn eich datganiad y byddech yn dymuno gweld "gwybodaeth gynnar" am gynlluniau a allai gael effaith ar wasanaethau hamdden lleol, fel bod modd ichi fod mewn sefyllfa i geisio dylanwadu ar y penderfyniadau hynny a'u llywio. **Edrychwn ymlaen at glywed am y camau yr ydych wedi eu cymryd i sefydlu sianelau cyfathrebu gyda llywodraeth leol yn hyn o beth, a beth fu canlyniadau'r trafodaethau hynny.**

Dylid nodi hefyd y byddwn yn cyhoeddi ein casgliadau o'r ymchwiliad a gynhaliwyd yn gynharach eleni gan y Pwyllgor i lefelau cyfranogi mewn chwaraeon yng Nghymru yn y dyfodol agos, a allai gynnwys argymhellion pellach i Lywodraeth Cymru yn hyn o beth.

**7. Darparu ar gyfer y Bil Teithio Llesol (Cymru)**
*(Amcanion craffu: fforddiadwyedd a gwerth am arian)*

Gwnaethom ofyn pam nad oedd unrhyw ddarpariaeth yn eich cyllideb i weithredu'r Bil Teithio Lleol (Cymru), o ystyried bod y cyfrifoldeb dros hyrwyddo cerdded a beicio yn rhan o'ch portffolio chi. Gwnaethoch nodi bod £0.3m wedi cael ei nodi ar gyfer 2014-15 o dan y portffolio Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth er mwyn datblygu mapiau o'r llwybrau sy'n bodoli eisoes. Gwnaethoch ddweud ei bod wastad wedi cael ei nodi'n glir y byddai mwyafrif y gyllideb ar gyfer teithio llesol yn aros o fewn y gyllideb drafnidiaeth, gan fod angen iddo fod yn rhan ganolog o bolisi Llywodraeth Cymru ac na ddylid ei ystyried fel rhywbeth ychwanegol.

Fel rhan o'i waith o graffu ar y Bil yng Nghyfnod 1, mynegwyd pryder gan y Pwyllgor Menter a Busnes mai "un o'r rhesymau dros ddiffyg llwyddiant Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Gerdded a Beicio oedd bod y gwaith o gyflawni'r Cynllun a'i ariannu wedi'i rannu rhwng portffolios Gweinidogion."

Rydym yn cefnogi'r farn hon ac, o ystyried y manteision y gall llwybrau beicio a cherdded gwell eu cynnig o ran iechyd, lles, mynd i'r afael ag anfantais, a'r amgylchedd, roeddem yn siomedig i weld ei bod yn ymddangos bod cyn lleied o flaenoriaeth yn cael ei roi iddo. Yn ogystal, rydym yn pryderu ynghylch sut y mae modd gweithredu'r Bil a'r Cynllun Teithio Llesol cysylltiedig mewn ffordd effeithiol o ystyried mai dim ond £0.3m sydd wedi cael ei neilltuo o fewn cyllideb gyfan Llywodraeth Cymru i'r diben hwn yn benodol , yn enwedig gan fod y £0.3m hwn wedi'i neilltuo ar gyfer mapio llwybrau presennol, sy'n rhywbeth y gellid bod wedi'i wneud heb fod angen deddfwriaeth.

**8. Gwariant Ataliol**
*(Amcanion: blaenoriaethu a gwerth am arian)*

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi gofyn i'r holl bwyllgorau pwnc roi darlun o'r gwariant ataliol ym mhob maes portffolio. Fodd bynnag, nid oedd y papur y gwnaethoch ei ddarparu i'r Pwyllgor yn rhoi esboniad penodol am y ffordd y caiff gwariant ataliol ei dargedu o fewn eich portffolio.

Pan ofynnwyd pa gyfran o'ch cyllideb sy'n cael ei neilltuo ar gyfer mesurau gwariant ataliol, gwnaethoch ddweud ei bod yn anodd nodi'r union ffigur, ond eich bod yn credu bod eich holl gyllideb bron yn canolbwyntio ar wariant ataliol. Gwnaethoch gyfeirio at enghraifft Chwaraeon Cymru a sut y mae'n helpu pobl i fod yn fwy egnïol ac i atal salwch ac, yn ei dro, bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyllideb y GIG. Yn ogystal, gwnaethoch siarad am yr effaith gadarnhaol y gall cyfranogi yn y celfyddydau ei gael ar les pobl, gan gyfeirio at iechyd meddwl fel maes penodol lle y gall wneud cyfraniad cadarnhaol. Er ein bod yn derbyn y pwynt hwn, mae gennym rai pryderon ei bod yn ymddangos nad oes unrhyw ddull eglur a phenodol i dargedu cyllid ar wariant ataliol o fewn eich portffolio.

**Gwnaethoch gytuno i ddarparu enghreifftiau o wariant ataliol uniongyrchol ac anuniongyrchol o ran rhai o'r rhaglenni o fewn eich adran.**

**9. Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn**
*(Amcan: fforddiadwyedd)*

Gwnaethom eich holi am y graddau yr ystyriwyd cronfeydd wrth gefn y sefydliadau yr ydych yn eu hariannu wrth bennu cyllideb 2014-15. Gwnaethoch ddweud wrthym eich bod wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r sefydliadau er mwyn pennu'r graddau yr oeddent yn ysgogi cyllid y tu allan i bwrs y wlad a pha gronfeydd wrth gefn oedd ganddynt. Gwnaethoch ddweud bod gan y parciau cenedlaethol gronfeydd wrth gefn sylweddol, er bod hyn yn amrywio i ryw raddau rhwng y tri, a bod hynny wedi dylanwadu ar eich penderfyniad terfynol ynghylch y cyllid a fyddai'n cael ei neilltuo iddynt. Gwnaethoch ddweud hefyd bod modd i'r holl sefydliadau ddangos eu bod wedi cymryd camau i ysgogi cyllid ychwanegol, er eich bod chi a hwy yn derbyn bod modd gwneud mwy o hyd. Gwnaethoch ddweud eich bod o'r farn bod budd mewn rhannu syniadau ar draws y sefydliadau a'ch bod yn bwriadu cynnal cyfarfodydd pellach gyda hwy er mwyn symud hyn yn ei flaen.

**Byddem yn gwerthfawrogi cael rhagor o fanylion am sut y caiff cronfeydd wrth gefn eu hystyried wrth bennu dyraniadau o fewn y gyllideb.**

Yn gywir

**Christine Chapman AC / AM**
Cadeirydd / Chair

cc Jocelyn Davies AC, Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid